# CANLLAWIAU AR GYFER Y RHEOLAETH O GYDRADDOLDEB IEITHYDDOL YN KABIA

## CRYNODEB

## CENHADAETH

Datgenir yng Nghynllun Strategol y Cyngor Taleithiol, os na nodir i'r gwrthwyneb, y byddai'r defnydd o'r iaith Fasgeg yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd ffafriol. Oherwydd mai asiantaeth annibynnol sy'n atebol i Adran Polisi Cymdeithasol Cyngor Taleithiol Gipuzkoa yw KABIA, y mae hi wedi cynnal safbwynt cydraddoldeb ieithyddol ers ei sefydlu.

Darparu gofal a sylw i bobl hŷn sydd mewn cartrefi nyrsio a chanolfannau dydd yw cenhadaeth KABIA. Ni ystyrir y gallai'r gofal a sylw hynny fod o'r ansawdd angenrheidiol heb gyfrif â chydraddoldeb ieithyddol.

Felly, **prif feini prawf ac amcanion ieithyddol KABIA** yw:

- Mai **iaith gwasanaeth** ei chanolfannau yw'r un y mae'r defnyddwyr yn ei dewis o blith y ddwy iaith swyddogol yn Gipuzkoa, gan, bob amser, hyrwyddo'r defnydd o'r Fasgeg.
- Basgeg fydd yr **iaith weithredol** yn bennaf.

## PRIF FEINI PRAWF

**Mae'r polisi yn seiliedig ar y prif feini prawf a ganlyn:**

### DEWIS IEITHYDDOL Y DEFNYDDWYR A'U TEULUOEDD

- Wrth gwblhau asesiad cychwynnol y defnyddiwr, cymerir y llwybr ieithyddol i ystyriaeth: canfyddir ei (h)iaith gyntaf a'i (h)ieithoedd cyfredol cyfathrebu, a pha iaith/ieithoedd y mae'r teulu eisiau ei/eu defnyddio, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar (gallant fod yn wahanol).
- Os y digwydd mai trydedd iaith (answyddogol yn Gipuzkoa) y dewisir, cymerir y dewis hwnnw i ystyriaeth.
- Bydd y wybodaeth hon ar gael i bob aelod staff sydd ei hangen.

## CYSYLLTIADAU LLAFAR

- Wrth gyfarch y defnyddwyr, bydd aelodau staff KABIA yn traethu'r gair cyntaf, yr ail a'r olaf yn yr iaith Fasgeg, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ar yr amod nad ydynt yn rhwystro neu yn atal y broses cyfathrebu, neu fod y defnyddiwr yn datgan ei bod/fod eisiau cyfathrebu mewn Sbaeneg. Yn yr achos hwnnw, bydd aelodau staff yn cymysgu ymadroddion hawdd eu deall a/neu ymadroddion yn y ddwy iaith, gan bob amser, osgoi sefyllfaoedd anghyfforddus.
- Os yw'r ymwelydd yn berson anhysbys a'r sgwrs berthnasol yn hir, gofynnir iddo/iddi ym mha iaith y dymuna gyfathrebu.
- Bydd aelodau staff nad ydynt yn ddwyieithog hefyd yn traethu gair cyntaf ac olaf eu sgyrsiau yn yr iaith Fasgeg. Os ydynt yn sylwi bod y defnyddiwr yn dymuno cyfathrebu mewn Basgeg, byddant yn gofyn am gymorth gan gydweithiwr dwyieithog.

## DOGFENNAU

- Bydd dogfennau mewnol ac allanol, a gohebiaeth ysgrifenedig, yn cael eu hysgrifennu yn yr iaith Fasgeg a, lle bo angen, byddant yn cael eu cyfieithu i'r Sbaeneg (ar gyfer eu cyhoeddiad...).
- Mae gan KABIA gofnod o'i dogfennau arferol sy'n amlinellu ym mha iaith y dylid ysgrifennu pob un ohonynt.

## DELWEDD GORFFORAETHOL

- Bydd enw'r ganolfan a'r fwrdeistref yn cael eu cynnwys ar y prif arwyddion ac ar logos.
- Bydd yr arwyddion yn cael eu hysgrifennu yn yr iaith Fasgeg pan fo'r fersiwn Sbaeneg yn cael ei sillafu mewn ffordd debyg, ynghyd â phictogram safonol pan fyddant yn hawdd eu deall, neu pan fydd aelodau staff yn brif dderbynwyr.
- Bydd gweddill yr arwyddion a phosteri (naill ai dros dro neu yn barhaol) yn cael eu hysgrifennu yn y ddwy iaith, yn ôl model y 'ddau floc'. Defnyddir y ffont Franklin Gothic Medium ar gyfer y Fasgeg, a Franklin Gothic Book ar gyfer y Sbaeneg.

## DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS

- Bydd digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn Basgeg neu mewn Basgeg a Sbaeneg.
- Ar ddechrau'r digwyddiad, esbonnir i'r cyfranogwyr sut fydd y cyfarfod yn cael ei weithredu.
- Defnyddir adnoddau i sicrhau dealltwriaeth pawb sy'n cymryd rhan, wrth geisio osgoi cyfieithu cymesur.

## HYRWYDDO

- Bydd fideos ar gyfer ymgyrchoedd hyrwyddo yn cael eu cynhyrchu mewn Basgeg, gydag is-deitlau mewn Sbaeneg.
- Os ar gyfer y we y'u crëwyd nhw, gwneir fersiwn yn y ddwy iaith, a bydd yr is-deitlau yn yr un iaith â'r sain.

## CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

- Bydd pob eitem o wybodaeth yn cael ei lledaenu ar gyfrif unigol yn y cyfryngau cymdeithasol, yn yr iaith Fasgeg ac yn y Sbaeneg, yn y drefn hon, gan adael cyfnod o amser rhwng y ddwy neges.
  - Mewn achosion eithriadol, os bydd y darllediad yn cael ei gynnal ar yr un pryd, lledaenir y negeseuon mewn Sbaeneg a Basgeg yn eu tro.
- Defnyddir hashtags ar gyfer enwau'r canolfannau.

## IAITH WEITHREDOL

- Bydd perthnasau gwaith rhwng aelodau staff KABIA yn cael eu datblygu yn yr iaith Fasgeg.
- Basgeg fydd iaith cysylltiadau llafar mewn cyfarfodydd gwaith hefyd, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi ar gyfer aelodau staff.

## TECHNOLEG GWYBODAETH

- Bydd adnoddau TG yn cael eu defnyddio yn yr iaith Fasgeg.

## RHEOLI'R GWEITHLU

- Wrth ddethol a chyflogi staff, yr ymgeisydd fydd yn dewis ym mha iaith y dymuna sefyll yr arholiad. Mewn prosesau mewnol, cwblheir o leiaf un o'r ymarferion yn yr iaith Fasgeg ar gyfer y swyddi hynny lle bo angen PL 3 neu 4.
- Dylai aelod staff newydd fod wedi ardystio ei hyfedredd ieithyddol o flaen llaw. Bydd ffurfioldebau croesawu, llyfryn staff newydd a chyflwyniadau llafar yn cael eu gwneud yn yr iaith Fasgeg. Cynhwysir yn y cyflwyniadau cychwynnol hyn gyfarwyddiadau ynglŷn â Rheoli Cydraddoldeb Ieithyddol a'i feini prawf cyfatebol.
- Bydd yr un meini prawf yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dod i'r canolfannau i wneud interniaethau.

## DEWIS IEITHYDDOL I AELODAU STAFF

- Bydd arolwg staff yn cael ei greu i gofnodi dewis iaith y bobl sy'n gweithio i KABIA. Yn seiliedig ar hyn, bydd pob aelod staff yn derbyn y dogfennau sy'n ymwneud â rheoli'r gweithlu (papur cyflog, T-10 ...) yn yr iaith a ddewiswyd ganddo/ganddi.
- Gellir newid y dewis hwn ar unrhyw adeg.
- Yn yr un modd, gall aelodau staff lenwi dogfennau cysylltiedig â rheoli'r gweithlu yn yr iaith Fasgeg a'r Sbaeneg ill dwy.

## CYFLENWYR, PARTNERIAID A GWEINYDDWYR

- Bydd KABIA yn mynnu i'w chyflenwyr, partneriaid a gweinyddwyr fodloni'r un meini prawf. Gwneir arolwg sgiliau iaith o'r bobl y mae'n cydweithio â nhw, er mwyn pennu iaith gyfathrebu briodol ar gyfer ei pherthnasau.
- Ar gyfer cyflenwyr, bydd yr amodau iaith sy'n cael eu diffinio mewn cytundebau yn amodau sylfaenol, a KABIA fydd yn asesu cyflawniad yr amodau ieithyddol penodedig.

Bydd mesurau arbennig ac eithriadau dros dro yn cael eu cytuno ym mhob achos er mwyn sicrhau bod gan bob aelod staff KABIA ddealltwriaeth. Ymhlith y mesurau eraill:

- Bydd aelodau staff dwyieithog yn cael eu nodi.
- Bydd aelodau staff gyda sgiliau deall isel yn hybu sgyrsiau dwyieithog. Ni orfodir i siaradwyr Basgeg gyfathrebu mewn Sbaeneg.
- Yn achos tasg dra arbenigol, a/neu pan na ellir eilyddio cyfranogwyr di-Fasgeg, cynhelir cyfarfodydd staff yn bennaf yn y Sbaeneg. Bydd o leiaf un rhan o'r cyfarfod yn cael ei chynnal yn y Fasgeg.
- Cymerir mesurau i sicrhau dealltwriaeth pawb sy'n derbyn gwybodaeth, megis: bydd negeseuon torfol i bob aelod staff yn yr iaith Fasgeg a Sbaeneg; bydd crynodebau mewn Sbaeneg yn cael eu dosbarthu ynghyd â dogfennau Basgeg i'w trafod mewn cyfarfodydd, a bydd esboniad arbennig yn cael ei rhoi ar lafar i sicrhau dealltwriaeth; bydd y ddogfen gyfan yn cael ei chyfieithu i'r Sbaeneg, ac ati...
- Gellir datblygu fersiynau Sbaeneg o gyrsiau hyfforddi Basgeg. Cynhelir cwrs yn y Sbaeneg dim ond pan na ellir gwarantu bod y person yn gallu cynnal y cwrs yn llwyddiannus yn y Fasgeg.
- Gall aelodau staff sydd â thrafferthion ysgrifennu mewn Basgeg gael eu heithrio, a gallant hefyd ofyn am fersiwn Sbaeneg o'r adnoddau cyfrifiadurol.
- Bydd map sgiliau pob canolfan yn cael ei gwblhau a'i ddiweddaru'n flynyddol; bydd yr anghenion hyfforddi yn cael eu nodi a bydd y cynllun hyfforddiant yn cael ei gynllunio yn seiliedig ar reoliadau'r Cyngor Taleithiol a chynnig IVAP (Sefydliad Gweinyddiaeth Gyhoeddus Gwlad y Basg). Bydd cymhellion yn cael eu trefnu er mwyn hwyluso'r broses o addysgu a'u hintegreiddiad yn y gweithle.

Mae'r llwybr i gyflawni hyn yn wahanol i bob canolfan a pherson sy'n gysylltiedig â'r endid hwn, gan nad ydynt i gyd ar yr un llinell sylfaen. Beth bynnag, mae pawb sy'n rhan o dîm KABIA yn gyfrifol am sicrhau cydraddoldeb ieithyddol a hawliau ieithyddol. Mae gan yr endid lwybr hyfforddi ar waith ar gyfer pob aelod staff er mwyn iddynt ymdrechu am arweinyddiaeth ieithyddol, a bydd y llwybr hyfforddi hwn yn cael ei ystyried wrth lenwi swyddi o gyfrifoldeb.

## RHEOLAETH AC ASESU

Bydd prif gyfrifoldeb dros gyflawni'r cynllun yn sefyll gyda thîm rheoli KABIA. Bydd yr adran TGCh, Sefydliad ac Arloesi yn cael y dasg i yrru'r cynllun yn ei flaen a bydd Timau Cydlynu'r canolfannau yn cynllunio'r camau gweithredu perthnasol.

Bydd y gwaith monitro ac asesu yn cael ei drefnu fel a ganlyn:

- Pob hanner blwyddyn: mesur cynnydd.
- Unwaith y flwyddyn: hunanasesu, diweddaru'r map sgiliau a monitro'r cyflenwyr.
- Bob yn ail flwyddyn: arolwg boddhad y defnyddwyr.
- Bob pedair blynedd: bydd KABIA yn ei chyfanrwydd yn cael ei hasesu ar gyfer y dystysgrif Bikain.
- Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru bob yn ail flwyddyn a byddant yn cael eu dosbarthu i bob aelod staff KABIA a darparwyr gwasanaethau allanol.

Bydd y gwaith monitro yn gyhoeddus ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan KABIA.